
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Luke Roberts



Daniel Pritchard



Sian Astley



Gweni Llwyd

# Gwobr Goffa Brian Ross

## Canllawiau

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Ebrill 2022

# Cynnwys


Hygyrchedd 2

1. Beth yw'r nod? 3
2. Am beth y bydd yn talu? 3
3. Pwy sy'n gallu enwebu? 3
4. Beth yw'r meini prawf cymhwysedd? 3
5. Beth yw'r meini prawf asesu? 4
6. Sut y penderfynwn? 4
7. Deunydd enwebu 4
8. Sut i ymgeisio 4
9. Angen cysylltu? 5


hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

# Hygyrchedd

Rydym ni'n darparu gwybodaeth mewn print bras, braille, sain, hawdd ei deall ac Arwyddeg. Ceisiwn hefyd gynnig gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg ar gais.

Os oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd ac rydych chi'n meddwl ymgeisio, gallwn eich cefnogi yn ystod y broses. Cysylltwch â ni: grantiau@celf.cymru i drafod sut.

Rydym ni'n gweithredu polisi cyfle cyfartal.

## Gwobr Goffa Brian Ross

### 1. Beth yw'r nod?

Gadawodd Brian Ross ei ystâd i'r Cyngor i annog a chefnogi artistiaid sydd ar y gweill i ddatblygu eu gwaith a'u gyrfa. Ers 2011 cefnogwn drwyddi artistiaid gweledol sy'n graddio yng Nghymru neu rai sydd wrth gam cynnar yn eu gyrfa. Hoffem gynnig yn flynyddol £3,000 yr un i fyfyrwyr gradd yn y Celfyddydau Cain sy'n graddio.

Mae ein diffiniad o'r celfyddydau gweledol yn eang, o'r traddodiadol i'r cyfoes, gan gynnwys, ffotograffiaeth, cerflunio, gosodiadau, ffilm, creu printiau, paentio, darlunio a pherfformio.

Caiff prifysgolion a cholegau Cymru y cyfle i enwebu myfyrwyr sy'n graddio yn yr haf a fydd yn elwa o'r cyfle i ymsefydlogi ym mlwyddyn gyntaf eu gyrfa. Rhaid iddynt ddangos ymroddiad a thalent yn ystod y cwrs. Croesawn yn arbennig enwebu myfyrwyr o gefndiroedd a dangynrychiolir. Gall hyn olygu pobl sy'n wynebu rhwystrau i gyfleoedd oherwydd eu rhywioldeb, eu hethnigrwydd, eu cefndir cymdeithasol ac economaidd neu eu hanabledd.

### 2. Am beth y bydd yn talu?

Galluogi'r graddedigion i barhau a datblygu eu hymarfer, er enghraifft: rhentu stiwdio, teithio, mentora neu offer.

### 3. Pwy sy'n gallu enwebu?

Prifysgolion a cholegau Cymru sy'n darparu cyrsiau BA yn y Celfyddydau Cain. Gallant enwebu myfyrwyr o pob cwrs celf gain.

### 4. Beth yw'r meini prawf cymhwysedd?

Rhaid i'r myfyrwyr:

- Ddod o Gymru neu fyw yma
- Bod yn graddio'r flwyddyn academaidd yma o gwrs Celfyddyd Gain (BA) gan Brifysgol neu Goleg yng Nghymru
- Dangos eu hymrwymiad i barhau â'u hymarfer yng Nghymru

## 5. Beth yw'r meini prawf asesu?

- Tystiolaeth o dalent yr artist ym maes celf gain
- Ymroddiad yr artist i'w faes yn ystod y cwrs
- Ymrwymiad yr artist i barhau â'i ymarfer yng Nghymru

## 6. Sut y penderfynwn?

Dryw banel dethol sy'n cynnwys un o'n Rheolwyr Portffolio a'n Swyddogion Datblygu a Chydweithiwr sydd ag arbenigedd yn y celfyddydau gweledol.

Byddwn yn hysbysu'r holl enwebeion a'r myfyriwr llwyddiannus.

## 7. Deunydd enwebu

Rhaid darparu tystiolaeth o waith y myfyriwr gan gynnwys:

- enw a chyfeiriad e-bost y myfyriwr
- datganiad (500 gair ar y mwyaf) i esbonio eich rhesymau dros enwebu
- CV a Datganiad Artist
- 6-8 llun o'i waith diweddar neu 5 munud o ffilm/perfformiad. Os oes dolenni â chyfrinair, rhowch wybod inni am y cyfrinair

Rhowch y cyfan mewn ffeil (Word neu pdf). Ni ddylai'r ffont fod yn llai na 12 pwynt na'r ffeil yn fwy na 250MB.

## 8. Sut i ymgeisio

E-bostiwch ni gan atodi'r wybodaeth angenrheidiol (gweler adran 7).

Mae ein cyfeiriad e-bost a gwybodaeth bellach ar ein gwefan: https://celf.cymru/cy/ariannu/gwneud-cais - cliciwch ar Unigolion a dewiswch Wobr Goffa Brian Ross.

## 9. Angen cysylltu?

I gael rhagor o gyngor neu gymorth gyda phroblemau technegol, cysylltwch â'n tîm Grantiau a Gwybodaeth: grantiau@celf.cymru neu:

Ffôn: 03301 242733 (ar gyfraddau lleol)

9am-5pm ddydd Llun-ddydd Iau

9am-4.30pm ddydd Gwener

Trydar: @Celf_Cymru

Instagram: @celfcymruarts

Facebook: Cyngor Celfyddydau Cymru | Arts Council of Wales

Gwefan: http://www.celf.cymru